

# Taflen Wybodaeth Gwirfoddoli Grŵp

## Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Ers 1907 rydyn ni wedi bod yn geidwaid treftadaeth a chasgliadau celf a hanes natur Cymru, ac rydyn ni'n credu y gall amgueddfeydd newid bywydau. Drwy wirfoddoli gyda ni, gall eich grŵp helpu i sicrhau bod y straeon a'r casgliadau amhrisiadwy hyn yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Yma cewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a'ch grŵp.

### Gweithgareddau Gwirfoddoli

Yn y gorffennol, mae grwpiau wedi ein helpu gyda gwyngalchu adeiladau hanesyddol, paentio ffensys, gwaith fferm, garddio, a helpu i drefnu deunyddiau archifol hyd yn oed.

Rhowch wybod os ydych chi'n chwilio am fath penodol o weithgaredd. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer, ond allwn ni ddim gwarantu y bydd gweithgaredd yn bosibl.

Uchafswm o 8 person y ddydd yn Big Pit.

### Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

Bydd eich grŵp yn cael cyflwyniad defnyddiol a phriodol, hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth gan staff Amgueddfa Cymru. Byddwn hefyd yn darparu unrhyw gyfarpar diogelu personol angenrheidiol yn rhad ac am ddim.

Bydd angen i'ch grŵp enwebu Arweinydd Tîm fydd yn cynnig cymorth a lefel o oruchwyliaeth i'ch grŵp.

Bydd angen i grwpiau ddod â'r nifer priodol o oruchwylwyr a/neu ofalwyr i oruchwylio grwpiau ag anghenion ychwanegol.

### Grŵp Oedran y Cyfranogwyr

Rhaid bod dros 18 oed i gymryd rhan.

### Amserlen y Diwrnod

Amserlen arferol:

| | |
|---|---|
| 10.00am | Cyrraedd y Dderbynfa. |
| 10.30am | Croeso a sesiwn wybodaeth.<br>Gwirfoddoli. |
| 1.30pm | Diwedd/cinio |

### Lluniaeth a Chinio

Mae croeso i chi ddefnyddio'r caffi neu'r cantîn trwy gydol y diwrnod. Mae grwpiau'n derbyn gostyngiad o 20% yn ein caffis.

Mae croeso i'ch grŵp hefyd ddod â phecyn bwyd, a gallwch ei fwyta yn yr awyr agored ar draws yr Amgueddfa.

## Opsiwn Ychwanegol

### Taith Danddearol

Teithiwch 300 troedfedd i grombil y ddaear gyda glöwr go iawn i weld sut beth oedd bywyd i'r miloedd o ddynion oedd yn gweithio yn y pyllau glo.

Byddwch yn barod i gael eich gollwng 90 metr (300 troedfedd) i lawr siafft Big Pit am ein taith danddaearol enwog. Mae'n daith drawiadol o gwmpas rhai o'r lefelau gwreiddiol.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan

https://amgueddfa.cymru/bigpit/taith/

Mae gwybodaeth cyffredinol a gwybodaeth i ymwelwyr sy'n anabl ar gael ar ein gwefan https://amgueddfa.cymru/bigpit/ymweld/

Neu e-bostiwch bigpit@amgueddfacymru.ac.uk a rhoi gwybod eich bod chi wedi archebu diwrnod gwirfoddoli grŵp gyda ni.

Rhowch wybod iddynt eich bod wedi archebu diwrnod gwirfoddoli grŵp gyda ni.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli fel grŵp, llenwch y Ffurflen Ymholiad a'i hanfon at Sion: gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 2057 3002.